

## YMGYNGHORIAD AR DDARPARIAETHAU A CHYNGION TEITHIO YN LLANBEDR

---

### **Croeso i Arolwg Teithio Llanbedr Cyngor Gwynedd!**

Diolch am gytuno i gymryd rhan yn yr arolwg ar y cynlluniau arfaethedig i'w gwneud hi'n haws, yn fwy diogel ac yn fwy cyfleus i bobl deithio yn Llanbedr.

Bydd eich barn ar y gwelliannau y gellir eu gwneud yn helpu i ddatblygu'r dyluniadau ymhellach, gan sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y gymuned yn y ffordd orau.

Noder, efallai y bydd yr ymatebion i'r arolwg ar gael i'r cyhoedd ar ôl i'r gweithgarwch ymgysylltu ddod i ben. Fel arfer, byddai hyn ar ffurf adroddiad ar ganlyniadau'r ymarfer ymgysylltu, ond bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac ni chaiff ei datgelu. Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu a'i phrosesu'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data a phreifatrwydd. Bydd ymatebion arolwg yn cael eu cadw am 10 mlynedd. I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau, ewch i: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Gwybodaeth/Datganiadau-preifatrwydd-a-chwcis.aspx>

Bydd yr arolwg hwn yn cymryd tua **10 munud** i'w gwblhau.

## CONSULTATION ON TRAVEL PROVISIONS AND PROPOSALS IN LLANBEDR

---

### **Welcome to the Cyngor Gwynedd Llanbedr Travel Survey!**

*Thank you for agreeing to take part in the survey concerning the proposed plans for making it easier, safer, and more convenient for people to travel in Llanbedr.*

*Your opinion on the improvements that could be made will help evolve the designs further, ensuring that they best meet the needs of the community.*

*Please note, responses to the survey may be made publicly available after the engagement has closed. This would typically be in the form of a report on the results of the engagement exercise, but any personal information will be kept confidential and not disclosed. Your personal information will be properly safeguarded and processed in accordance with the requirements of privacy and data protection legislation. Survey responses will be retained for 10 years. For further information about your rights, please visit <https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Information/Privacy-notices-and-cookies.aspx>*

*Taking part in this survey will take approximately **10 minutes** to complete.*

## AMDANOCH CHI

### ABOUT YOU

---

**Cwestiwn 1:** Dewiswch bob un sy'n berthnasol i chi.

**Question 1:** Please select all that are relevant to you.

- |                          |  |
|--------------------------|--|
| <input type="checkbox"/> | Un o drigolion Llanbedr / Resident of Llanbedr   |
| <input type="checkbox"/> | Un o drigolion ardal ehangach Dwyfor-Meirionnydd / Resident of the wider Dwyfor-Meirionnydd area   |
| <input type="checkbox"/> | Perchennog Busnes Lleol / Local Business Owner   |
| <input type="checkbox"/> | Yn cymudo i Lanbedr / Commuter to Llanbedr   |
| <input type="checkbox"/> | Yn cymudo drwy Lanbedr / Commuter through Llanbedr   |
| <input type="checkbox"/> | Ymwelydd rheolaidd â'r ardal ar gyfer fy ngwyliau / Regular visitor to the area for my holiday     |
| <input type="checkbox"/> | Ymwelydd achlysurol â'r ardal ar gyfer fy ngwyliau / Occasional visitor to the area for my holiday |
| <input type="checkbox"/> | Perchennog ail gartref yn Llanbedr / Second homeowner in Llanbedr                                  |
| <input type="checkbox"/> | Tirfeddiannwr y mae'r cynigion yn effeithio arno / Landowner impacted by the proposals             |
| <input type="checkbox"/> | Dim un o'r uchod / None of the above   |

**Cwestiwn 2:** Rhowch sector cod post eich cyfeiriad cartref presennol i ni. Sector cod post yw hanner cyntaf eich cod post a rhif cyntaf yr ail hanner. Er enghraifft, byddai LL45 1AB yn LL45 1. Os byddai'n well gennych beidio â darparu eich cod post cartref, symudwch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

**Question 2:** Please provide us with the postcode sector of your current home address. A postcode sector is the first half of your postcode and the first number of the second half. For example, LL45 1AB would be LL45 1. If you would prefer not to provide your home postcode, please skip to the next question.

Sylwadau / Comments:


## AMCANION Y PROSIECT

### ***OBJECTIVES OF THE PROJECT***

---

**Cwestiwn 3:** Amcanion y prosiect yw gwella diogelwch, galluogi mynediad drwy ddulliau teithio cynaliadwy, gwella'r amgylchedd adeiledig yn Llanbedr, a lleihau effaith yr economi ymwelwyr ar y gymuned leol.

**Question 3:** *The objectives of the project are to improve safety, enable access by sustainable transport modes, improve the built environment within Llanbedr, and to reduce the impact of the visitor economy on the local community.*

**Ydych chi'n cytuno â'r amcanion hyn?**

***Do you agree with these objectives?***

<input type="checkbox"/>	Ydw / Yes
<input type="checkbox"/>	Nac ydw / No
<input type="checkbox"/>	Dydw i ddim yn siŵr / I am unsure

**Cwestiwn 4:** Ac eithrio diogelwch, mynediad drwy ddulliau teithio cynaliadwy, a'r economi ymwelwyr, a oes unrhyw broblemau trafndiaeth eraill y mae angen mynd i'r afael â nhw yn Llanbedr a'r ardal leol?

**Question 4:** *With the exception of safety, access by sustainable transport modes, and the visitor economy, are there any other transport problems that need to be addressed within Llanbedr and the local area?*

<input type="checkbox"/>	Oes (nodwch) / Yes (please specify)
<input type="checkbox"/>	Nac oes / No

Sylwadau / Comments:


**Cwestiwn 5:** Oes unrhyw welliannau sydd eu hangen ar yr A496 drwy Llanbedr a'r rhwydwaith ffordd lleol?

**Question 5:** *Are there any improvements required on the A496 through Llanbedr and the local road network?*

Oes / Yes

Nac oes / No

## FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL

### ***LOW-SPEED RELIEF ROAD***

---

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cefnogi'r egwyddor o Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn Llanbedr? Rhowch eich rhesymau am hyn, os hoffech wneud hynny. Os nad ydych chi'n cefnogi'r egwyddor o Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn y lleoliad hwn, atebwch a symudwch ymlaen i Gwestiwn 10.

**Question 6:** *Do you support the principle for a Low-Speed Relief Road at Llanbedr? If you would like, please provide your reasoning. If you do not support the principle of a Low-Speed Relief Road in this location, please answer and skip ahead to Question 10.*

Ydw / Yes

Nac ydw (nodwch pam) / No (please specify why)

Sylwadau / Comments:


**Cwestiwn 7:** Bydd y Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn derfyn cyflymder o 40mya yn ymestyn o'r terfyn cyflymder presennol o 40mya yn Llanfair yn y gogledd i safle Knightmovers/Cambrian Clearance yn y de.

**Question 7:** *The Low-Speed Relief Road will be a 40-mph speed limit extending between the current 40-mph speed limit in Llanfair in the north and to the Knightmovers/Cambrian Clearance site in the south.*

**Ydych chi'n cytuno bod hwn yn gyflymder addas ar gyfer y ffordd newydd arfaethedig?**

***Do you agree that this is a suitable speed for the potential new road?***

Ydw / Yes

Nac ydw (nodwch pam) / No (please specify why)

Sylwadau / Comments:


**Cwestiwn 8:** Fel rhan o'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel, cynigir y dylid gwahardd cerbydau modur (ac eithrio gwasanaethau bysiau lleol a cherbydau gwasanaethau brys) rhag defnyddio Pont Afon Artro yn Llanbedr.

**Question 8:** *As part of the Low-Speed Relief Road, it is proposed to prohibit motor vehicles (with the exception of local bus services and emergency service vehicles) from using the existing Artro River Bridge in Llanbedr.*

**Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?**

***Do you agree with this proposal?***

Ydw / Yes

Nac ydw (nodwch pam) / No (please specify why)

Sylwadau / Comments:


**Cwestiwn 9:** Fel rhan o'r Ffordd Liniaru Cyflymder Isel, cynigir y dylid gwahardd cerbydau modur rhag defnyddio Ffordd Mochras o dan y ffordd newydd, gyda mynediad cyfyngedig i gerddwyr, beicwyr ac olwynwyr (cadeiriau olwyn/sgwteri ac ati) yn unig.

**Question 9:** As part of the Low-Speed Relief Road, it is proposed to prohibit motor vehicles from using Mochras Road under the new road, with access limited to only pedestrians, cyclists, and wheelers (wheelchairs/scooters etc).

**Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?**

**Do you agree with this proposal?**

Ydw / Yes

Nac ydw (nodwch pam) / No (please specify why)

Sylwadau / Comments:




**Cwestiwn 10:** Rhowch unrhyw sylwadau pellach ar y cynnig ar gyfer Ffordd Liniaru Cyflymder Isel. Os nad oes gennych unrhyw sylwadau eraill, symudwch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

**Question 10:** *Please provide any further comments on the proposal for a Low-Speed Relief Road. If you do not have any further comments, please skip to the next question.*

Sylwadau / Comments:


## GWELLIANNAU YM MHENTREF LLANBEDR – SENARIO HEB FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL

### LLANBEDR VILLAGE IMPROVEMENTS – WITHOUT LOW-SPEED RELIEF ROAD SCENARIO

---

**Cwestiwn 11:** Byddech chi'n teimlo'n fwy cyfforddus yn cerdded, yn olwynio neu'n beicio ym mhentref Llanbedr pe bai unrhyw rai o'r opsiynau canlynol ar waith? Byddai pob un o'r opsiynau hyn yn cael eu rhoi ar waith heb i Ffordd Liniaru Cyflymder Isel gael ei hadeiladu.

**Question 11:** *Would you feel more comfortable walking, wheeling, or cycling within the village of Llanbedr with any of the following options in place? All these options would be implemented without a Low-Speed Relief Road being constructed.*

	Na
Byddwn	Fyddwn
Yes	No

--	--

**Opsiwn 1** – Gwelliannau o ran Diogelwch

*Option 1 – Safety Improvements*

--	--

**Opsiwn 2** – Gwelliannau o ran Diogelwch, Teithio Llesol, a Thrafnidiaeth Gyhoeddus

*Option 2 – Safety, Active Travel, and Public Transport Improvements*

--	--

**Opsiwn 3** – Gwelliannau o ran Diogelwch, Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus, a Llif Traffig (Signalau Traffig)

*Option 3 – Safety, Active Travel, Public Transport, and Traffic Flows Improvements (Traffic Signals)*

--	--

**Opsiwn 4** – Gwelliannau o ran Diogelwch, Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus, a Llif Traffig (Parcio i Drigolion oddi ar y Stryd)

*Option 4 – Safety, Active Travel, Public Transport, and Traffic Flows Improvements (Residential Off-Street Parking)*





**Cwestiwn 12:** Rhwch unrhyw sylwadau eraill ar y gwelliannau arfaethedig ym mhentref Llanbedr yn y senario lle na chaiff Ffordd Liniaru Cyflymder Isel ei hadeiladu. Os nad oes gennych unrhyw sylwadau eraill, symudwch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

**Question 12:** *Please provide any further comments on the proposed Llanbedr Village Improvements in the scenario where a Low-Speed Relief Road is not constructed. If you do not have any further comments, please skip to the next question.*

Sylwadau / Comments:


## GWELLIANNAU YM MHENTREF LLANBEDR – SENARIO GYDA FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL

### LLANBEDR VILLAGE IMPROVEMENTS – WITH LOW-SPEED RELIEF ROAD SCENARIO

---

*Os nad ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o Ffordd Liniaru Cyflymder Isel, symudwch ymlaen i Gwestiwn 15.*

*If you do not agree with the principle of a Low-Speed Relief Road, please skip ahead to Question 15.*

**Cwestiwn 13:** Byddech chi'n teimlo'n fwy cyfforddus yn cerdded, yn olwynio neu'n beicio ym mhentref Llanbedr pe bai unrhyw rai o'r opsiynau canlynol ar waith? Byddai'r ddau opsiwn hwn yn golygu bod Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn cael ei hadeiladu.

**Question 13:** *Would you feel more comfortable walking, wheeling or cycling within the village of Llanbedr with any of the following options in place? Both these options would involve a Low-Speed Relief Road being constructed.*

	Na
Byddwn	Fyddwn
Yes	No

--	--

**Opsiwn 5** – Gwelliannau o ran Diogelwch  
*Option 5 – Safety Improvements*

--	--

**Opsiwn 6** – Gwelliannau o ran Diogelwch, Teithio Llesol, a Thrafnidiaeth Gyhoeddus  
*Option 6 – Safety, Active Travel, and Public Transport Improvements*

**Cwestiwn 14:** Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar y gwelliannau arfaethedig ym mhentref Llanbedr yn y senario lle caiff Ffordd Liniaru Cyflymder Isel ei hadeiladu. Os nad oes gennych unrhyw sylwadau eraill, symudwch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

**Question 14:** Please provide any further comments on the proposed Llanbedr Village Improvements in the scenario where a Low-Speed Relief Road is constructed. If you do not have any further comments, please skip to the next question.

Sylwadau / Comments:


## **GWELLIANNAU AR FFORDD MOCHRAS – SENARIO HEB FFORDD LINIARU CYFLYMDER ISEL**

### **MOCHRAS ROAD IMPROVEMENTS – WITHOUT LOW-SPEED RELIEF ROAD SCENARIO**

**Cwestiwn 15:** Byddech chi'n teimlo'n fwy cyfforddus yn cerdded, yn olwynio neu'n beicio ar hyd Ffordd Mochras pe bai unrhyw rai o'r opsiynau canlynol ar waith? Byddai pob un o'r opsiynau hyn yn cael eu rhoi ar waith heb i Ffordd Liniaru Cyflymder isel gael ei hadeiladu.

**Question 15:** *Would you feel more comfortable walking, wheeling or cycling along Mochras Road with any of the following options in place? All these options would be implemented without a Low-Speed Relief Road being constructed.*

	Na
Byddwn	Fyddwn
Yes	No

--	--

**Opsiwn 7 – Gwelliannau o ran Diogelwch**

**Option 7 – Safety Improvements**

--	--

**Opsiwn 8 – Gwelliannau o ran Diogelwch a Theithio Llesol**

**Option 8 – Safety and Active Travel Improvements**

**Cwestiwn 16:** Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar y gwelliannau arfaethedig ar Ffordd Mochras yn y senario lle na chaiff Ffordd Liniaru Cyflymder Isel ei hadeiladu. Os nad oes gennych unrhyw sylwadau eraill, symudwch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

**Question 16:** *Please provide any further comments on the proposed Mochras Road Improvements in the scenario where a Low-Speed Relief Road is not constructed. If you do not have any further comments, please skip to the next question.*

Sylwadau / Comments:


## **GWELLIANNAU AR Ffordd MOCHRAS – SENARIO GyDA Ffordd LINIARU CYFLYMDER ISEL**

### **MOCHRAS ROAD IMPROVEMENTS – WITH LOW-SPEED RELIEF ROAD SCENARIO**

---

*Os nad ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o Ffordd Liniaru Cyflymder Isel, symudwch ymlaen i Gwestiwn 19.*

*If you do not agree with the principle of a Low-Speed Relief Road, please skip ahead to Question 19.*

**Cwestiwn 17:** Byddech chi'n teimlo'n fwy cyfforddus yn cerdded, yn olwynio neu'n beicio ar hyd Ffordd Mochras pe bai unrhyw rai o'r opsiynau canlynol ar waith? Byddai'r ddau opsiwn hwn yn golygu bod Ffordd Liniaru Cyflymder Isel yn cael ei hadeiladu.

**Question 17:** *Would you feel more comfortable walking, wheeling or cycling along Mochras Road with any of the following options in place? Both these options would involve a Low-Speed Relief Road being constructed.*

	Na
Byddwn	Fyddwn
Yes	No

--	--

**Opsiwn 9 – Gwelliannau o ran Diogelwch**

**Option 9 – Safety Improvements**

--	--

**Opsiwn 10 – Gwelliannau o ran Diogelwch a Theithio Llesol**

**Option 10 – Safety and Active Travel Improvements**

**Cwestiwn 18:** Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar y gwelliannau arfaethedig ar Ffordd Mochras yn y senario lle caiff Ffordd Liniaru Cyflymder Isel ei hadeiladu. Os *nad oes gennych unrhyw sylwadau eraill, symudwch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.*

**Question 18:** *Please provide any further comments on the proposed Mochras Road Improvements in the scenario where a Low-Speed Relief Road is constructed. If you do not have any further comments, please skip to the next question.*

Sylwadau / Comments:


## GORSAF REILFFORDD LLANBEDR

### LLANBEDR RAILWAY STATION

**Cwestiwn 19:** Byddech chi'n fwy tebygol o ddefnyddio Gorsaf Reilffordd Llanbedr pe bai'r opsiynau isod yn cael eu rhoi ar waith?

**Question 19:** *Would you be more likely to use Llanbedr Railway Station if the options below were implemented?*

	Na
Byddwn	Fyddwn
Yes	No

--	--

**Opsiwn 11** – Gwelliannau i'r Sefyllfa Bresennol o ran Parcio Ceir a Beiciau  
**Option 11** – *Improvements to Existing Car and Cycle Parking*

--	--

**Opsiwn 12** – Lleoedd Parcio Newydd i Geir a Beiciau  
**Option 12** – *New Car and Cycle Parking*



**Cwestiwn 20:** Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar y gwelliannau arfaethedig i Orsaf Reilffordd Llanbedr. Os *nad* oes gennych unrhyw sylwadau eraill, symudwch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

**Question 20:** Please provide any further comments on the proposed Llanbedr Railway Station Improvements. If you do not have any further comments, please skip to the next question.

Sylwadau / Comments:


## OPSIWN/OPSIYNAU A FFEFRIR

### ***PREFERRED OPTION(S)***

---

**Cwestiwn 21:** Dewiswch bob un o'r opsiynau rydych chi'n eu cefnogi. Amlinellwch yr opsiwn rydych chi'n ei ffafrio hefyd, os oes gennych un.

**Question 21:** Please select all the options that you are supportive of. Please also outline your preferred option, if you have one.

Ffordd Liniaru Cyflymder Isel (gan gynnwys gwahardd cerbydau modur ar Bont Afon Artro a Ffordd Mochras) yn unig

*Low-Speed Relief Road (including a prohibition of motor vehicles at the Artro River Bridge and Mochras Road) only*

**Opsiwn 1** – Gwelliannau o ran Diogelwch (Pentref Llanbedr – Senario Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel)

**Option 1** – Safety Improvements (Llanbedr Village – Without a Low-Speed Relief Road Scenario)

**Opsiwn 2** – Gwelliannau o ran Diogelwch, Teithio Llesol a Thrafnidiaeth Gyhoeddus (Pentref Llanbedr – Senario Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel)

**Option 2** – Safety, Active Travel, and Public Transport Improvements (Llanbedr Village – Without a Low-Speed Relief Road Scenario)

**Opsiwn 3** – Gwelliannau o ran Diogelwch, Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus a Llifau Traffig (Signalau Traffig) (Pentref Llanbedr – Senario Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel)

**Option 3** – Safety, Active Travel, Public Transport, and Traffic Flows Improvements (Traffic Signals) (Llanbedr Village – Without a Low-Speed Relief Road Scenario)

**Opsiwn 4** – Gwelliannau o ran Diogelwch, Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus a Llifau Traffig (Parcio i Drigolion oddi ar y Stryd) (Pentref Llanbedr – Senario Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel)

**Option 4** – Safety, Active Travel, Public Transport, and Traffic Flows Improvements (Residential Off-Street Parking) (Llanbedr Village – Without a Low-Speed Relief Road Scenario)

**Opsiwn 5** – Gwelliannau o ran Diogelwch (Pentref Llanbedr – Senario Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel)

**Option 5** – Safety Improvements (Llanbedr Village – With a Low-Speed Relief Road Scenario)



**Opsiwn 6** – Gwelliannau o ran Diogelwch, Teithio Llesol a Thrafnidiaeth Gyhoeddus (Pentref Llanbedr – Senario Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel)

**Option 6** – *Safety, Active Travel, and Public Transport Improvements (Llanbedr Village – With a Low-Speed Relief Road Scenario)*

**Opsiwn 7** – Gwelliannau o ran Diogelwch (Ffordd Mochras – Senario Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel)

**Option 7** – *Safety Improvements (Mochras Road – Without a Low-Speed Relief Road Scenario)*

**Opsiwn 8** – Gwelliannau o ran Diogelwch a Theithio Llesol (Ffordd Mochras – Senario Heb Ffordd Liniaru Cyflymder Isel)

**Option 8** – *Safety and Active Travel Improvements (Mochras Road – Without a Low-Speed Relief Road Scenario)*

**Opsiwn 9** – Gwelliannau o ran Diogelwch (Ffordd Mochras – Senario Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel)

**Option 9** – *Safety Improvements (Mochras Road – With a Low-Speed Relief Road Scenario)*

**Opsiwn 10** – Gwelliannau o ran Diogelwch a Theithio Llesol (Ffordd Mochras – Senario Gyda Ffordd Liniaru Cyflymder Isel)

**Option 10** – *Safety and Active Travel Improvements (Mochras Road – With a Low-Speed Relief Road Scenario)*

**Opsiwn 11** – Gwelliannau i'r Sefyllfa Bresennol o ran Parcio Ceir a Beiciau (Gorsaf Reilffordd Llanbedr)

**Option 11** – *Improvements to Existing Car and Cycle Parking (Llanbedr Railway Station)*

**Opsiwn 12** – Lleoedd Parcio Newydd i Geir a Beiciau (Gorsaf Reilffordd Llanbedr)

**Option 12** – *New Car and Cycle Parking (Llanbedr Railway Station)*

Yr opsiwn rwy'n ei ffafrio yw:  
*My preferred option is:*

## AMDANOCH CHI / ABOUT YOU

---

Bydd ateb y cwestiynau canlynol yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod wedi casglu barn amrywiaeth o bobl ac yn rhoi cyfle i bawb o bob cefndir gymryd rhan. **Nid oes rhaid i chi eu hateb.** Bydd yr holl wybodaeth yn gwbl gyfrinachol. Ni fydd yn bosib i ni eich adnabod. Dim ond i bwrpas dadansoddi ystadegau y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio.

*Answering the following questions will help us ensure we have collected the views of a variety of people and given everyone from all backgrounds a chance to take part. **You do not have to answer them.** Any information you provide is strictly confidential. We will not be able to identify you. The information will only be used for statistical analysis.*

### Rhyw / Sex

Dewiswch un o'r atebion canlynol / Choose one of the following answers:

<input type="checkbox"/>	Dyn / Gwryw / Man / Male
<input type="checkbox"/>	Dynes / Benyw / Woman / Female
<input type="checkbox"/>	Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol / I identify in a different way
<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud / I prefer not to say

### Grŵp oedran / Age group

Dewiswch un o'r atebion canlynol / Choose one of the following answers:

<input type="checkbox"/>	15 oed neu iau / years old or youngers
<input type="checkbox"/>	16 - 24 oed / years old
<input type="checkbox"/>	25 - 34 oed / years old
<input type="checkbox"/>	35 - 44 oed / years old
<input type="checkbox"/>	45 - 54 oed / years old
<input type="checkbox"/>	55 - 64 oed / years old
<input type="checkbox"/>	65 - 74 oed / years old
<input type="checkbox"/>	75 - 84 oed / years old
<input type="checkbox"/>	85 + oed / years old
<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud / I prefer not to say

## Disgrifiwch eich sgiliau yn y Gymraeg / Describe your skills in Welsh

Ticiwch unrhyw rai sy'n berthnasol / Choose one of the following answers

<input type="checkbox"/>	Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl <i>Speak, read and write fluently</i>
<input type="checkbox"/>	Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn <i>Speak, read and write, but not very confidently</i>
<input type="checkbox"/>	Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi'n dysgu <i>Speak, read and write – I'm learning</i>
<input type="checkbox"/>	Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu <i>Speak, but can't read or write</i>
<input type="checkbox"/>	Ddim yn gallu siarad na deall Cymraeg <i>Can't speak or understand Welsh</i>
<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud <i>I prefer not to say</i>
<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch) <i>Other (please specify):</i>

## Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol / Nationality or National identity

Dewiswch un o'r atebion canlynol / Choose one of the following answers

<input type="checkbox"/>	Cymreig / <i>Welsh</i>
<input type="checkbox"/>	Seisnig / <i>English</i>
<input type="checkbox"/>	Albanaidd / <i>Scottish</i>
<input type="checkbox"/>	Gwyddelig o Ogledd Iwerddon / <i>Northern Irish</i>
<input type="checkbox"/>	Prydeinig / <i>British</i>
<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud / <i>I prefer not to say</i>
<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch) / <i>Other (please specify):</i>

## Hil / Race

Dewiswch un o'r atebion canlynol / Choose one of the following answers

<input type="checkbox"/>	Gwyn / <i>White</i>
<input type="checkbox"/>	Du / Affricanaidd / Caribïaidd / <i>Black / African / Caribbean</i>
<input type="checkbox"/>	Asiaidd / <i>Asian</i>
<input type="checkbox"/>	Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig / <i>Gypsy / Irish Traveller</i>
<input type="checkbox"/>	Cymysg / sawl grŵp ethnig / <i>Mixed / several ethnic groups</i>
<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud / <i>I prefer not to say</i>
<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch) / <i>Other (please specify):</i>

## Crefydd / Religion

Dewiswch un o'r atebion canlynol / Choose one of the following answers

<input type="checkbox"/>	Dim crefydd / <i>No religion</i>
<input type="checkbox"/>	Cristion / <i>Christian</i>
<input type="checkbox"/>	Mwslim / <i>Muslim</i>
<input type="checkbox"/>	Bwdhaidd / <i>Buddhist</i>
<input type="checkbox"/>	Hindŵ / <i>Hindu</i>
<input type="checkbox"/>	Iddewig / <i>Jewish</i>
<input type="checkbox"/>	Sîc / <i>Sikh</i>
<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud / <i>I prefer not to say</i>
<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch) / <i>Other (please specify):</i>

## Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?

(Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed)

### ***Which of these best describes you?***

*(You do not need to answer this question if you are under 16)*

Dewiswch un o'r atebion canlynol / *Choose one of the following answers*

<input type="checkbox"/>	Heterorywiol / Strêt / <i>Heterosexual / Straight</i>
<input type="checkbox"/>	Dyn hoyw / <i>Gay man</i>
<input type="checkbox"/>	Dynes hoyw / lesbiaidd / <i>Gay woman / lesbian</i>
<input type="checkbox"/>	Deurywiol / <i>Bisexual</i>
<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud / <i>I prefer not to say</i>
<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch) / <i>Other (please specify):</i>

## Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni?

(er enghraifft, rydych chi'n drawsrywiol neu trans ayyb)

(Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed)

### ***Has your gender identification changed from that assigned to you at birth?***

*(for example are you trans or transgender etc)*

*(You do not need to answer this question if you are under 16 years old)*

Dewiswch un o'r atebion canlynol / *Choose one of the following answers*

<input type="checkbox"/>	Ydi / <i>Yes</i>
<input type="checkbox"/>	Nac ydi / <i>No</i>
<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud / <i>I prefer not to say</i>

**Mae Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod unigolyn yn anabl os:**

- a. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a**
- b. Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.**

***Section 6 (1) of the Equality Act 2010 states that a person is disabled if:***

- a. The person has a physical or mental impairment,***
- b. and the impairment has a substantial and long-term effect on the person's ability to carry out normal day-to-day activities.***

**Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?**

***Using this definition, do you consider yourself a disabled person?***

Dewiswch un o'r atebion canlynol / *Choose one of the following answers*

<input type="checkbox"/>	Ydi / Yes
<input type="checkbox"/>	Nac ydi / No
<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud / I prefer not to say

## EFFAITH AR Y GYMRAEG

### ***IMPACT ON THE WELSH LANGUAGE***

---

**Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y cynlluniau arfaethedig ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w defnyddio a'i statws o fewn y gymuned?**

***In your opinion, what will be the impact of the proposed plans on the Welsh language, the opportunities to use the language and its status within the community?***

Dewiswch un o'r atebion canlynol / *Choose one of the following answers*

<input type="checkbox"/>	Effaith gadarnhaol / <i>Positive impact</i>
<input type="checkbox"/>	Ychydig o effaith gadarnhaol / <i>Limited positive impact</i>
<input type="checkbox"/>	Niwtral / <i>Neutral</i>
<input type="checkbox"/>	Ychydig o effaith negyddol / <i>Limited negative impact</i>
<input type="checkbox"/>	Effaith negyddol / <i>Negative impact</i>

**Oes yna unrhyw gyfleoedd i addasu y cynlluniau arfaethedig er mwyn cael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'r defnydd ohoni, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol?**

***Are there any opportunities to adapt the proposed plans to have a more positive impact on the Welsh Language and its use, or to remove any negative effects?***

Sylwadau / *Comments:*


**Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y cynlluniau arfaethedig ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol? (Er enghraifft, tlodi ariannol, tlodi digidol, byw ymhell o wasanaethau)?**

***In your opinion, what will be the impact of the proposed plans on those who are socio-economically disadvantaged (for example, financial poverty, digital poverty, no easy access to services and events)?***

Sylwadau / Comments:


## **Mae'r holiadur wedi dod i ben**

Diolch i chi am gwblhau'r holiadur a rhoi eich barn am y cynlluniau arfaethedig i'w gwneud hi'n haws, yn fwy diogel ac yn fwy cyfleus i bobl deithio yn Llanbedr.

## ***The survey has ended***

*Thank you for completing the questionnaire and providing your feedback on the proposed plans for making it easier, safer, and more convenient for people to travel in Llanbedr*